# Wythnos Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru
# 22 – 28 Ebrill 2024

Bob gwanwyn ers 2019, mae **Cyfoeth Naturiol Cymru** a **Chyngor Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru** yn dod at ei gilydd i drefnu #WythnosDysguAwyrAgoredCymru. Mae'n gyfle gwych i ddangos a dathlu sut gall bob un ohonom ni elwa o ddysgu yn ein hamgylchfyd naturiol – gan ddysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.

Eleni rydyn ni'n ymuno yn yr wythnos o ddathlu'r awyr agored ac rydym wedi creu pecyn o syniadau ar gyfer gweithgareddau sy'n seiliedig ar **Tidy,** y llyfr i blant gan Emily Gravett. Mae addasiad Cymraeg o **Tidy – Taclus** – gan Mari George, hefyd ar gael.

Os nag ydych chi wedi darllen y llyfr, dyma grynodeb o'r stori…

Mae Pete y mochyn daear yn hoffi cadw popeth yn dwt ac yn daclus: y blodau, y dail, hyd yn oed yr anifeiliaid eraill. Ond, pan ddaw'r hydref, mae'n mynd braidd yn rhy bell wrth geisio tacluso'r goedwig ac yn dinistrio'i gartref ei hun ar ddamwain!

Yn 2025, bydd Polka Theatre a Theatr Iolo yn teithio **Tidy,** ochr yn ochr â fersiwn Gymraeg, **Taclus**, i theatrau ledled Cymru a Lloegr. Er mwyn darganfod mwy am y daith, ewch i theatriolo.com

Rydyn ni wedi creu'r gweithgareddau hyn ar gyfer plant 3-7 oed, ond mae modd addasu sawl un ar gyfer plant hŷn ac iau hefyd. Gobeithio y cewch chi hwyl a sbri yn yr awyr agored efo'ch gilydd!

## Dyma'n prif argymhellion ar gyfer dysgu yn yr awyr agored…

1. **Does dim ffasiwn beth â thywydd gwael!** Ond heb os, bydd pawb yn hapusach os ydyn nhw'n gwisgo dillad addas. Yr adeg yma o'r flwyddyn, mae esgidiau glaw, cotiau a throwsusau glaw a haenau o ddillad yn addas.

2. **Cymerwch eich amser.** Mae treulio amser y tu allan yn rhoi'r cyfle i blant archwilio, ac ni fydd pob diwrnod yr un fath. Cymerwch eich amser a gadewch i'r plant arwain lle fo'n bosib.

3. **Cychwynnwch yn fach.** Os nag ydy'ch dosbarth wedi dysgu yn yr awyr agored lawer o'r blaen, fe allai gymryd amser iddyn nhw (a chi) ddod i arfer a'r amgylchfyd gwahanol. Rydyn ni'n argymell cychwyn gyda gweithgareddau byr, tua 10-15 munud o hyd, ac adeiladu ar hyn i weithio y tu allan am gyfnodau hirach fel y dewch yn fwy cyfarwydd â bod y tu allan efo'ch gilydd.

# Mwynhewch y mwd!

Nid yw Pete y mochyn daear yn hoff iawn o fwd na dail. Mae e am dacluso a chadw popeth yn lân. Ond wrth dacluso'r goedwig o ddail a mwd, mae e'n colli ei gartref ac yn sydyn reit mae'n dod i ddeall bod tamaid o fwd yn iawn wedi'r cyfan!

Mae mwd yn ddeunydd creadigol gwych pan fyddwch yn dysgu yn yr awyr agored, ac fe ellir ei ddefnyddio ar gyfer llawer o weithgareddau gwahanol. Dyma ambell o'n ffefrynnau…

## GWEITHGAREDD: Paentio gyda Mwd

Ydych chi erioed wedi rhoi cynnig ar baentio gyda mwd? Beth am gasglu tamaid o fwd o lefydd gwahanol a chreu eich paent mwd eich hunain? Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw cymysgu eich mwd gydag ychydig o ddŵr!*

**Yr hyn fyddwch chi ei angen…**

- Mwd!
- Potiau ar gyfer cymysgu
- Dŵr
- Brwsys paent
- Papur
- Clipfyrddau neu îsls ar gyfer pwyso arnynt y tu allan

**Sylwch…**

- Pa liw yw eich mwd? Ydi mwd yn newid lliw os fyddwch yn ei gasglu o lefydd gwahanol?
- Oes rhywbeth arall yn y mwd? (e.e. tywod, cerrig mân, dail)
- A allwch chi greu effeithiau gwahanol gyda'r 'paent' (e.e. fflicio'r brws neu ddefnyddio sbwng, neu hyd yn oed ddeilen!)

*Gwnewch yn siŵr bod cŵn a chathod heb ddefnyddio'r ardal fel tŷ bach. Dewiswch fwd o ardaloedd glân, a chofiwch gael caniatâd gan bwy bynnag sydd berchen y tir.

**Gweithgareddau dilynol:**

- Datblygwch y gweithgaredd a rhowch gynnig ar greu brws paent naturiol o frigau neu laswellt.
- Ymchwiliwch baentiadau mewn ogof i weld sut mae'r rhain yn cymharu i'ch paentiadau mwd chi.
- Dysgwch am sut y crëwyd paent drwy'r oesoedd. Pa ddeunyddiau a ddefnyddiwyd i greu lliwiau 500, 200 neu 50 mlynedd yn ôl? Sut mae pethau wedi newid? Ydy'r technegau a ddefnyddiwn ni heddiw yn well neu'n waeth?

| **Maes Dysgu a Phrofiad** | **Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig** |
|---|---|
| Y Celfyddydau Mynegiannol | Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.<br><br>Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.<br><br>Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg. |
| Y Dyniaethau | Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.<br><br>Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. |

**GWEITHGAREDD: Slwtsian drwy'r mwd!**

Mae mwd yn gallu edrych ac ymddwyn yn wahanol yn dibynnu ar y tywydd. Dyma arbrawf sydyn y gallwch chi ei wneud y tu allan i weld beth sy'n digwydd.

- Rhowch damaid bach o fwd mewn dau gynhwysydd gwahanol
- Dewch o hyd i le y tu allan i adael un cynhwysydd (heb gaead)
- Rhowch gaead ar y cynhwysydd arall a'i gadw y tu mewn, mewn man oer a thywyll.
- Siaradwch am / ysgrifennwch yr hyn yr ydych yn meddwl bydd yn digwydd i'r mwd sydd y tu allan os bydd hi'n glawio neu'n heulog iawn. Gwnewch yr un peth ar gyfer y mwd sydd y tu mewn.
- Edrychwch ar y mwd bob dydd am wythnos i weld sut mae'n newid.
- **BONWS CYMHWYSEDD DIGIDOL!** Beth am dynnu lluniau o'r mwd a chadw dyddiadur lluniau i weld sut mae'r mwd yn newid dros amser.

**Pethau i archwilio ymhellach…**

- Gan feddwl am ganlyniad yr arbrawf, archwiliwch a thrafodwch sut y gallai newid hinsawdd newid y dirwedd a'r byd yr ydym yn byw ynddo.

**Dilyniant i athrawon…**

Dyma erthygl ynglŷn â pham mai mwd, baw a dŵr yw'r offer chwarae gorau i blant: ***https://www.famly.co/blog/mud-play-early-childhood-education***

| Maes Dysgu a Phrofiad | Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig |
|---|---|
| Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.<br><br>Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau. |
| Y Dyniaethau | Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. |

## Ble mae anifeiliaid yn byw?

Mae Pete y mochyn daear yn byw mewn cartref o'r enw set. Mae anifeiliaid gwyllt y DU yn byw mewn pob math o gynefinoedd a phob math o gartrefi.

**GWEITHGAREDD RHAN UN: Mynd i Grwydro**

Ewch am dro gyda'ch gilydd fel dosbarth i weld pa gartrefi anifeiliaid y gallwch chi eu gweld. Byddwch yn ofalus nad ydych yn tarfu ar yr anifeiliaid sy'n byw yno!

**Pethau a allai fod yn ddefnyddiol ar eich taith:**
- Ysbienddrychau
- Chwyddwydr
- Nodiadur a phensiliau
- Camera

**Pethau i ofyn neu i'w gwneud ar eich taith…**
- Crëwch restr o anifeiliaid sy'n byw i fyny fri, a'r rheiny sy'n byw ar y ddaear.
- Darluniwch y gwahanol gartrefi anifeiliaid a welwch ar hyd eich taith.
- Sbïwch dan gerrig a boncyffion i weld pa bryfed sydd i'w canfod! (Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi popeth yn ôl wedyn).
- Cadwch lygad allan am eitemau nad ydynt yn perthyn yn yr amgylchfyd a nodwch sut y gallai'r rhain fod yn beryglus neu'n fuddiol i anifeiliaid.

*Awgrym: Os ydych chi'n byw mewn ardal ddinesig iawn, efallai y byddwch yn dewis canolbwyntio ar anifeiliaid fel adar, trychfilod, gwenyn a mwydod.*

**GWEITHGAREDD, RHAN DAU: Ble ydw i'n byw?**

Ar ôl bod am dro, dyma syniad ar gyfer gêm y gallwch chi ei chwarae y tu allan, gyda'ch gilydd fel dosbarth…

Beth am greu 'cartrefi' y tu allan, gan argraffu lluniau o wahanol gartrefi anifeiliaid.



**TWLL CWNINGEN**

Unwaith y byddwch wedi argraffu’r cartrefi, argraffwch ddigonedd o gopïau o bob un anifail.



**Cwningen**

**Er enghraifft:**
Mochyn Daear (set)
Llwynog (ffau)
Aderyn (nyth)
Cwningen (twll cwningen)
Dyfrgi (gwâl)
Gwenynen (cwch gwenyn)
Pryf copyn (gwe)

Rhannwch eich dosbarth i grwpiau llai a rhowch ddetholiad o anifeiliaid iddyn nhw. Gofynnwch iddyn nhw gydweithio i ddarganfod y cartref ‘cywir’ ar gyfer pob anifail. Yn dibynnu ar oedran y plant, mae’n bosib y byddwch am drafod enwau’r cartrefi ymlaen llaw.

Er mwyn creu ychydig o gystadleuaeth gallech ychwanegu sticeri lliw i’r anifeiliaid – un lliw ar gyfer pob grŵp. Ar ddiwedd y gêm, casglwch yr holl anifeiliaid a gweld pwy sydd wedi cael y nifer fwyaf o gartrefi cywir!

Awgrym: Peidiwch ag anghofio lamineiddio’ch lluniau er mwyn eu gwarchod rhag y tywydd!

| Maes Dysgu a Phrofiad | Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig |
|---|---|
| Y Dyniaethau | Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.<br><br>Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.<br><br>Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol. |
| Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.<br><br>Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi. |

# Set swynol set!

Yn y stori, mae Pete y mochyn daear yn mynd braidd dros ben llestri yn tacluso, ac yn difetha'i gartref ei hun ar ddamwain.

Mae gofalu am yr amgylchfyd naturiol yn gyfrifoldeb mawr. Mae pobl yn cael effaith fawr ar y byd, gan gynnwys cynefinoedd anifeiliaid. Ond mae cryn dipyn y gallwn ni ei wneud i ofalu am yr amgylchfyd naturiol, a'i wella, gan sicrhau fod gan anifeiliaid gartref diogel!

**Gweithgaredd: Byw yn y ddinas**

Mae pobl yn gwella ac yn integreiddio dylunio sy'n garedig i fywyd gwyllt, wrth ddylunio adeiladau a thirweddau dinesig newydd. Dyma ambell i enghraifft yng Nghymru:

- Adeiladau a chanddynt 'frics gwenyn' (e.e. Pafiliwn Grange, Caerdydd)
- Gorsafoedd bws sydd â thoeau gwyrdd (Caerdydd ac Abertawe)
- Cychod gwenyn dinesig (Y Senedd ym Mae Caerdydd, Amgueddfa Cymru a Phrifysgol Abertawe)
- Priffyrdd i Ddraenogod (bighedgehogmap.org)

Ewch allan i'ch cymuned leol i weld os allwch chi ddarganfod enghreifftiau lle mae pobl wedi gwella adeiladau neu strwythurau ar gyfer bywyd gwyllt lleol. Gallai hyn fod mewn lleoliad dinesig neu wledig.

Os nag ydych chi'n gallu mynd allan i'r gymuned, defnyddiwch fapiau Google i edrych ar yr esiamplau a nodir uchod.

**GWEITHGAREDD: Codi Sbwriel**

Mae sbwriel mewn mannau naturiol yn achosi llawer o broblemau i fywyd gwyllt. Mae draenogod yn mynd yn sownd mewn caniau ac adar y môr yn llyncu plastig o'r moroedd dim ond yn ddwy enghraifft. Ond, newyddion da, gall bob un ohonom chwarae ein rhan yn gwneud y byd yn lle gwell.

Beth am drefnu sesiwn codi sbwriel gymunedol neu greu posteri ar gyfer eich ardal leol, yn annog pobl i beidio â thaflu sbwriel?

**GWEITHGAREDD: Creu gwesty i drychfilod**

Mae rhai anifeiliaid yn symud o le i le yn aml, yn chwilio am lefydd newydd fel cartref clud! Mae trychfilod, chwilod, pryfed cop a mwydod ymhlith rhai o'r creaduriaid sy'n edrych allan am gartrefi newydd yn gyson.

Beth am greu eich gwesty eich hun ar gyfer trychfilod, yn eich ysgol chi?

**Yr hyn fyddwch chi ei angen…**

- Paledau pren (gofalwch nad oes hoelion na phinnau siarp ac ati yn sticio allan)
- Hen ddarnau o bren
- Briciau (gyda thyllau ynddynt)
- Ffyn
- Dail
- Cerrig
- Moch coed
- Gwellt

Gallwch greu unrhyw fath o westy i drychfilod – byddwch mor ddychmygus â phosib!

Dyma ambell i syniad i'ch rhoi chi ar ben ffordd:





| Maes Dysgu a Phrofiad | Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig |
|---|---|
| Y Dyniaethau | Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.<br><br>Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol. |
| Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.<br>Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.<br><br>Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi. |

## Llyfrau awgrymedig / darllen pellach…

**Tidy** \ **Taclus** gan Emily Gravett (addasiad gan Mari George)

**The Lost Words \ Geiriau Diflanedig** gan Robert Macfarlane a Jackie Morris (addasiad gan Mererid Hopwood)

**Somebody Swallowed Stanley** gan Sarah Roberts

**Clean Up!** gan Nathan Bryon

**When the Bees Buzzed Off** gan Lula Bell

**The Last Wolf** gan Mini Grey